**Y Pwyllgor dros Addysg a Dysgu Gydol Oes**

## ADRODDIAD GWEINIDOG Y CYNULLIAD I'R PWYLLGOR ADDYSG A DYSGU GYDOL OES AR 17 IONAWR 2001

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r newyddion diweddaraf i'r Pwyllgor am faterion penodol yr oedd am gael gwybod amdanynt ers fy adroddiad blaenorol ar Ragfyr 13. Mae **Atodiad B** yn nodi fy mhrif weithgareddau ers yr adroddiad diwethaf.

### 1. STRATEGAETH IEITHOEDD GENEDLAETHOL

Lansiodd Prif Weinidog Cymru gopi drafft o'r papur ymgynghorol ar y 'Strategaeth Ieithoedd Genedlaethol' yng nghynhadledd 'Blwyddyn Ieithoedd Ewrop' yng Nghaerdydd ar 13 Rhagfyr.

Mae'r papur ymgynghorol yn disgrifio nodweddion hanfodol y strategaeth a gynigiwyd gan y Cynulliad ar gyfer cyflawni'r amcanion hyn. Mae'r Cynulliad yn gwbl ymrwymedig i godi proffil a safonau ieithoedd tramor mewn ysgolion tra'n cynnal cwricwlwm eang a chytbwys. Mae'r ddogfen hon yn rhoi argymhellion i AALl ac yn nodi sut fath o bolisi mae'r Cynulliad yn bwriadu ei ddatblygu yng Nghymru.

### 2. DATBLYGIADAU YN Y BROSES O WEITHREDU'R CYNLLUN GWEITHREDU ADDYSG A HYFFORDDIANT

Mae'r Gorchmynion Cychwyn ar gyfer llawer o ddarpariaethau'r Ddeddf Ddysgu a Sgiliau 2000 sy'n gysylltiedig â sefydlu Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant wedi eu gwneud, neu yn cael eu hystrydied gan y Cynulliad. Mae cynllun ar gyfer trosglwyddo eiddo, hawliau ac atebolrwydd i'r Cyngor newydd o dan adran 93 y Ddeddf yn cael ei baratoi hefyd.

Penodwyd Cadeirydd a Phrif Weithredwr i'r Cyngor newydd. Cynhaliwyd cyfweliadau ar gyfer aelodau eraill y Cyngor yng Ngogledd Cymru. Cynhelir rhai eraill yn Ne Cymru.

Cafodd uwch-dîm rheoli'r Cyngor newydd ei gyhoeddi gan y Cyngor ar 11 Ionawr. Gellir dod o hyd i'r manylion ar dudalennau ETAP ar wefan y Cynulliad. Y cam nesaf yw i'r Cyngor benodi ei drydedd haen reoli – yn cynnwys penaethiaid y swyddfeydd rhanbarth. Mae'r gwaith hwn eisoes ar y gweill.

Cytunwyd i drosglwyddo £4.721 miliwn o'r awdurdodau lleol i'r Cyngor newydd ar gyfer addysg oedolion ac addysg barhaus a bydd hynny'n digwydd o 1 Ebrill 2001 ymlaen. Sefydlwyd project hefyd i bennu'r swm o arian sydd ei angen i ariannu chweched dosbarth, o 1 Ebrill

2002 ymlaen.

## 3. CYNGOR ADDYSGU CYFFREDINOL CYMRU

Cynhaliwyd cyfarfod ffurfiol cyntaf o Gyngor Addysgu Cenedlaethol Cymru, a sefydlwyd ar 1 Medi 2000, ar 4 Hydref 2000. Ers hynny mae'r Cyngor wedi sefydlu pedwar pwyllgor pwnc (y Pwyllgor Gweithredol, Archwilio, Polisi ac Aelodaeth, Cofrestru a Disgyblu), a chafwyd cyfarfod o bob un o'r rhain.

Cynhelir y cyfarfod nesaf o'r Cyngor yn llawn ar 29 Ionawr 2001 yn Wrecsam. Bydd y pwyllgor, sy'n agored i'r cyhoedd, yn cael ei ddilyn y noson honno gan fforwm agored sy'n rhoi'r cyfle i aelodau o'r proffesiwn addysgu yng Ngogledd Cymru ofyn cwestiynau a mynegi eu pryderon i aelodau'r Cyngor.

Un o dasgau cyntaf y Cyngor oedd sefydlu cofrestr o athrawon yng Nghymru. Aeth y gwaith hwn yn dda iawn, ac yn yr amser byr ers sefydlu'r Cyngor mae tua 34,000 o athrawon naill ai wedi cael eu cofrestru'n awtomatig neu wedi gofyn am gael eu cofrestru. Yn ystod yr wythnosau nesaf bydd y Cyngor yn ysgrifennu at athrawon unigol i'w hysbysu am eu manylion cofrestru.

Bydd y Cyngor hefyd, yn y tymor byr, yn canolbwyntio ar ddatblygu Côd Ymarfer ar gyfer y proffesiwn addysgu, a gofynnir i athrawon gyfrannu'n unigol at ddatblygu'r cod hwn. Bydd y Cyngor hefyd yn edrych ar Ddatblygu Proffesiynol Parhaus yn y proffesiwn addysgu.

## 4. TÂL ATHRAWON: CEISIADAU TROTHWY CYFLOG

Yn dilyn ymgynghori ar adroddiad y Corff Adolygu Athrawon Ysgol, mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg a Chyflogaeth wedi gwneud Gorchymyn i ddod â'r system trothwy cyflog i rym.

Cyflwynwyd rhai gwelliannau a oedd wirioneddol eu hangen:

- bydd pob athro wedi cael eu ffurflenni cais yn ôl wedi eu hasesu a byddant yn derbyn adborth gan eu pennaeth ynglyn â chanlyniadau eu cais ac ynglyn ag agweddau ar eu perfformiad sydd angen mwy o ddatblygu. Bydd hyn yn galluogi'r athro a'i reolwr i nodi blaenoriaethau clir ar gyfer datblygu proffesiynol yn y dyfodol

- bydd gan athrawon sydd o’r farn eu bod wedi cael eu cam-asesu fel athrawon nad ydynt yn cwrdd â safonau’r trothwy, yr hawl i ofyn am adolygu’r penderfyniad hwnnw.

Y sefyllfa yng Nghymru yw:

- Dylai athrawon yng Nghymru wneud ceisiadau am drothwy cyflog erbyn y dyddiad newydd 16 Mawrth 2001, oni bai fod eu hamgylchiadau personol yn ei gwneud yn anodd iddynt wneud cais erbyn y dyddiad hwnnw ac mewn achos o’r fath y dyddiad cau fydd 23 Mawrth 2001.

- Bydd penaethiaid wedyn yn asesu’r ymgeiswyr am drothwy cyflog uwch. Dylai penaethiaid gwblhau eu hasesiadau o’r ymgeiswyr trothwy cyflog a’u hanfon at yr aseswyr allanol erbyn 18 Mai 2001. Gallant wneud cais am estyniad hyd at 25 Mai mewn achosion lle bydd ganddynt 40 neu fwy o ymgeiswyr trothwy cyflog neu lle mae pennaeth newydd wedi symud i’r ysgol dros gyfnod y Pasg 2001. Anogir penaethiaid ysgolion bach i gwblhau eu hasesiadau erbyn 30 Ebrill 2001.

- Bydd aseswyr allanol a reolir gan y consortia o AALl Cymreig yn ymweld ag ysgolion er mwyn gwirio’r broses asesu. Cynhelir yr ymweliadau yng Nghymru yn ystod tymor yr haf 2001.

Bydd asesu’r trothwy cyflog yn erbyn safonau addysgu effeithiol cenedlaethol yn rhoi’r potensial i athrawon da gael codiad cyflog blynyddol o £2,000 a gaiff ei ôl-ddyddio i 1 Medi 2000.

Bydd yr Adran Addysg a Chyflogaeth yn comisiynu gwerthusiad trylwyr a chynhwysfawr o’r safonau a’r gweithdrefnau trothwy. Bydd y gwerthusiad hwn ar gael i’w ystyried yn ystod adolygiad ar gyfer yr adroddiad y mae’r Corff Adolygu Athrawon Ysgol am ei gynhyrchu yn nechrau 2002.

## 5. RHAGLEN DATBLYGU PRIFATHRAWIAETH GENEDLAETHOL

Mae’r rhaglen hon yn darparu hyfforddiant ar gyfer athrawon sy’n gobeithio mynd yn benaethiaid; yn cynorthwyo penaethiaid newydd; ac yn helpu penaethiaid profiadol i ddatblygu ymhellach.

Athrawon sy’n gobeithio mynd yn benaethiaid

Caiff y Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth (NPQH) ei gydnabod bellach fel un o’r rhannau allweddol o baratoi ar gyfer prifathrawiaeth. Mae 400 o ymgeiswyr yn astudio’r cwrs yng Nghymru ar hyn o bryd a nifer yr athrawon sydd eisoes wedi llwyddo i ennill yr NPQH yw 120. Rwyf ar hyn o bryd yn ystyried cynigion i wella’r ffordd y mae’r NPQH yn cael ei gyflwyno er mwyn sicrhau ei fod yn cwrdd ag anghenion yr ymgeiswyr yng Nghymru.

Penaethiaid Newydd eu Penodi

Mae’r Cynulliad wedi datblygu Rhaglen Sefydlu Broffesiynol i Benaethiaid Newydd (PHIP). Mae hon yn rhagle sydd wedi cael ei llunio ar gyfer anghenion Cymru. Yn ddiweddar cafodd y PHIP ei dreialu yng Nghymru ac fe’i cyflwynir o fis Ebrill 2001 ymlaen ar gyfer penaethiaid sy’n cychwyn ar eu swydd gyntaf ym mis Medi.

Pedair rhan y PHIP yw:

- proffil o brifathrawiaeth sy’n helpu penaethiaid newydd i nodi tasgau, cryfderau a meysydd i’w datblygu

- mentora cynorthwyol gan benaethiaid profiadol

- rhwydweithio â chyfoedion

- cyfeirlyfr hyfforddi cenedlaethol

Gyda’i gilydd, mae’r rhain yn darparu cymorth ar gyfer dwy flynedd gyntaf prifathrawiaeth.

Penaethiaid Profiadol

Mae’r Rhaglen Arweinyddiaeth i Benaethiaid Mewn Swydd (LPSH) yn adeiladu ar sail gwybodaeth ac arbenigedd bresennol penaethiaid i ddatblygu a gwella arweinyddiaeth effeithiol a sgiliau rheoli. Mae’r 9 rhaglen gyntaf yng Nghymru wedi eu llenwi gan ddarparu hyfforddiant ar gyfer 126 o benaethiaid sy’n dechrau’r mis hwn. Datblygwyd yr LPSH gan yr Adran Addysg a Chyflogaeth.

Y Grp Arweinyddiaeth ehangach

Yn ogystal â’r rhaglenni arweinyddiaeth, rwyf yn ddiweddar wedi cymeradwyo datblygu Modiwlau Arweinyddiaeth Ysgolion (SLM) i gynorthwyo datblygu proffesiynol parhaus ar gyfer y grwp arweinyddiaeth a gyflwynwyd i ysgolion Cymru ym mis Medi 2000. Bydd y rhain yn darparu rhaglen arbennig wedi ei chreu yng Nghymru a gaiff ei datblygu a’i chyflwyno ar y cyd gydag AALl ac athrawon.

**6. GRWP YMCHWILIO ANNIBYNNOL Y CYNULLIAD I GALEDI YMHLITH MYFYRWYR A**

**GRANTIAU MYFYRWYR**

Mae'r Grwp yn mynd â'r ymchwiliad yn ei flaen. Mae wedi cwrdd ddwywaith ers i mi gyhoeddi'r amodau gorchwyl ac Aelodau'r Grwp i'r Cynulliad ar 5 Rhagfyr 2000 a chynhelir ei drydydd cyfarfod ar 17eg Ionawr. Bydd y Grwp cyn bo hir yn ffurfio amserlen ar gyfer y cyfarfodydd, i'w cynnal mewn sawl lleoliad ar hyd a lled Cymru yn ystod yr wythnosau nesaf.

**7. ADRODDIAD GRANT ARBENNIG – COSTAU CYFLOG ARWEINYDDIAETH A MESURAU I WELLA YSGOLION**

Cymeradwyodd y Cynulliad yr Adroddiad Grant Arbennig a oedd yn cynnig £7.9m ychwanegol i ysgolion i dalu am gostau cyflog arweinyddiaeth a mesurau gwella ysgolion. Dyrannwyd yr arian i gyfrifon awdurdodau lleol ar 4ydd Ionawr. Mae amodau'r Adroddiad yn gofyn i'r awdurdodau drosglwyddo'r swm cyfan i ysgolion ac i wneud hynny o fewn 10 diwrnod gwaith i dderbyn yr arian. Dylai ysgolion felly fod wedi cael eu hysbysu o'r cynnydd yn eu cyllidebau dirprwyedig yn ôl y bwriad. Ysgrifennais hefyd at Gadeiryddion y Cyrff Llywodraethu ac at Benaethiaid holl ysgolion Cymru ar 20 Rhagfyr i'w hysbysu am yr arian ychwanegol a fydd ar gael ac i roi eglurhad mwy cyffredinol ar y materion ariannu sy'n effeithio ar ysgolion.

**8. MESUR AAA AC ANABLEDD**

Yn y ddadl ar Araith y Frenhines yng Nghyfarfod Llawn y Cynulliad ar 19 Rhagfyr cyfeiriwyd at gyfeirio'r Mesur AAA ac Anabledd, ymysg eraill, at y Pwyllgor Pwnc perthnasol fel bod modd iddynt ystyried y pwerau a roddwyd i'r Cynulliad a sut y gellid defnyddio'r pwerau hyn. Mae gan y Pwyllgorau Pwnc hyd at 13 Chwefror i adrodd yn ôl am hyn yn y Cyfarfod Llawn. Deallaf fod Clerc y Pwyllgor yn gwneud ymholiadau pellach i Swyddfa'r Llywydd cyn dosbarthu ymateb awgrymedig i'r aelodau ei ystyried.

Roeddwn yn teimlo y byddai o fudd i mi roi proc i gof yr Aelodau yngln â'r Pwyllgor blaenorol ac i friffio Aelodau newydd y Pwyllgor hwn am y Mesur fel rhan o fy adroddiad heddiw. Gellir dod o hyd i eglurhad manylach o'r Mesur, o'r pwerau a roddir i'r Cynulliad yn ogystal ag eglurhad cryno o sut y gellir defnyddio'r pwerau hyn, yn Atodiad yr Adroddiad hwn. Mae copïau o'r Mesur, ynghyd â Nodiadau Eglurhaol manwl, ar gael yn Llyfrgell y Cynulliad. Mae hefyd ar gael ar wefan T'r Cyffredin.

**9. TROSGLWYDDO CYLLIDEB**

Y mis diwethaf, cymeradwyodd y Gweinidog dros Gyllid, y Gweinidog dros Ddiwylliant a minnau y penderfyniad i drosglwyddo £95,000 i ddawns a drama a £39,992 i Gyngor Llyfrau Cymru i'w safleoedd priodol. Dangosir manylion y trosglwyddiadau hyn isod:

trosglwyddo £95,000 o’r Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL) ar gyfer Cymorth Cyngor Celfyddydau Cymru i’r Celfyddydau, i’r Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL) ar gyfer Cronfeydd Mynediad Myfyrwyr;

trosglwyddo £39,992 o’r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Rhaglen ACCAC i’r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Cyngor Llyfrau Cymru.

Yn ogystal â hyn, cytunodd y Gweinidog dros Gyllid a minnau y dylid gwneud y trosglwyddiadau canlynol:

Trosglwyddo £226,000 o’r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Rhaglen ACCAC i’w Linell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Costau Rhedeg i adlewyrchu’r ffigyrau y cytunodd Y Prif Ysgrifennydd a’r Ysgrifennydd Cyllid arnynt;

Trosglwyddo £72,000 o’r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Rhaglen ACCAC i’w Linell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Costau Rhedeg i gwrdd â’r gofynion ychwanegol a nodir isod;

-costau rhentu uwch swyddfeydd yr Awdurdod;

-prynu offer TG hanfodol newydd; a

-chylch gorchwyl negodi yr Awdurdod

trosglwyddo £23,000 o arian tanwario a welwyd yn y Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Rheoli Perfformiad Athrawon i gyllideb Costau Rhedeg yr Awdurdod er mwyn talu costau sy’n gysylltiedig â chyhoeddi deunyddiau’r Cwricwlwm Cenedlaethol yn Gymraeg.

**10. Cystadleuaeth Farddoniaeth Jiwbilî Aur y Frenhines**

Ar 23 Tachwedd, cyhoeddodd Prif Weinidog Cymru bod Gyl y Banc ychwanegol wedi cael ei chreu i ddathlu Jiwbilî Aur y Frenhines ar 3 Mehefin 2002.

Bydd hyn yn rhoi cyfle unigryw i gydnabod Cymru a diwylliant Cymreig o fewn y DU a’r Gymanwlad, a chaiff ysgolion Cymreig eu hannog i gyflwyno ceisiadau yn Gymraeg yn ogystal ag yn Saesneg. Sefydlwyd grp llywio i gydlynu amrywiaeth o ddigwyddiadau a fydd yn ddathliad o rôl y brenin neu’r frenhines fel Pennaeth y Gymanwlad ac yn gam ymlaen i’r dyfodol. Rwy’n gwneud cynrychiolaethau i gael cynrychiolydd Cymraeg ar y grp.